Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Glan Clwyd

**Ffordd Dinbych**
**Llanelwy**
**LL17 0RP**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Glan Clwyd

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Uwchradd Glan Clwyd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1034 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 926 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 0 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 108 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd<br>*(Canran cenedlaethol y digyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Uwchradd yw 18.5%)* | 7.3% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a)<br>*(Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysg arbennig yn y sector Uwchradd yw 23%)* | 21.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 56.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | 01/09/2019 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | Tachwedd 2012 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Uwchradd Glan Clwyd yn gymuned ofalgar a chynhwysol lle mae lles y disgyblion yn flaenoriaeth allweddol. Mae staff yn diwallu anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion yn ogystal â chynnig arweiniad clir iddynt ar hyd eu taith yn yr ysgol. Mae staff y 'Tîm Cynnal' a'r tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) trwy Ganolfan Elwy yn meddu ar wybodaeth gynhwysfawr o anghenion disgyblion unigol ac maent yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i gefnogi anghenion emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol disgyblion.

Yn gyffredinol, mae gan lawer o'r disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at fywyd ysgol ac mae'r rhan fwyaf yn teimlo'n ddiogel. Mae ymddygiad disgyblion mewn llawer o wersi yn dda, ac maent yn dangos brwdfrydedd ac awydd i ddysgu. Er hyn, mewn lleiafrif o wersi, nid yw'r disgyblion yn gwrando'n ddigon astud ac maent yn tarfu ar adegau ar eu hathrawon a'u cyfoedion. Mae gan aelodau'r chweched dosbarth agweddau cadarnhaol iawn tuag at yr ysgol. Maent yn ymddwyn yn aeddfed iawn ac yn cyfrannu'n helaeth at fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae lle blaenllaw i lais y disgybl yng nghymuned Ysgol Uwchradd Glan Clwyd. Mae cyfraniadau'r cyngor ysgol a'r amryw bwyllgorau yn werthfawr iawn i waith yr ysgol. Mae'r 'Panel Parch a Charedigrwydd', dan ofal y chweched dosbarth, yn esiampl fyw o'r pwysigrwydd a roddir i hawliau cyfartal. Ar ben hyn, mae cyfleoedd gan ddisgyblion i fentora a chefnogi eu cyfoedion. Mae gan y disgyblion felly gyfleoedd cyfoethog i ddatblygu eu medrau arwain a datblygu'n ddinasyddion moesgar ac egwyddorol sy'n cyfrannu'n llawn at fywyd yr ysgol.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn gadarn er bod cyfleoedd i ehangu ar hyn ar draws y cwriwcwlm yn gyfyngedig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi elwa'n fawr ar gyfleoedd i ddatbygu eu medrau digidol ac yn mantesio ar gyfleoedd buddiol i ymestyn a datblygu eu doniau ymhellach.

Er bod cryfderau yn ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol, mae diffygion cyffredin yn nisgwyliadau lleiafrif o athrawon. Yn gyffredinol, nid yw'r gweithgareddau yn eu gwersi yn cynnig digon o her i ddisgyblion. Yn ogystal, nid yw disgwyliadau lleiafrif o athrawon o ran ymddygiad yn ddigon uchel na chwaith defnydd y disgyblion o'r Gymraeg.

Yng nghyfnodau allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, ceir ystod eang o gyrsiau diddorol i ddisgyblion ddewis ohonynt gan gynnwys rhai sy'n gweddu i'r diwydiannau lleol. Mae arlwy eang iawn o brofiadau allgyrsiol gwerthfawr ar gael ar gyfer y disgyblion i gyfoethogi'u profiadau dysgu ymhellach. Mae'r cynllun trochi sy'n cynorthwyo disgyblion sy'n trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg yn hwyr iawn ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion yn hynod effeithiol. Mae'r disgyblion yma yn derbyn cefnogaeth ac anogaeth werthfawr i sicrhau eu bod yn elwa'n llawn o gwricwlwm a bywyd yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn cynnig arweiniad angerddol a chefnogol dros ddyfodol yr ysgol ac yn gosod pwysigrwydd sylweddol ar feithrin ethos ofalgar a chynhaliol. Mae arweinwyr yn arddangos ymrwymiad clir i gymuned yr ysgol ac maent wedi llwyddo i ddatblygu ethos gofalgar a diwylliant diogelu cadarn. Nid ydynt wedi blaenoriaethu'n

ddigon gofalus er mwyn sicrhau bod eu gwaith gwella yn targedu’r agweddau sydd angen y mwyaf o sylw. Er bod y systemau rheoli yn addas ar y cyfan, nid ydynt yn cyd-blethu’n ddigon effeithiol i gefnogi taith wella’r ysgol.

## Argymhellion

A1 Codi disgwyliadau disgyblion ac athrawon o ran ymddygiad a’r Gymraeg

A2 Gwella agweddau o addysgu mewn lleiafrif o wersi er mwyn cynyddu lefel yr her

A3 Sicrhau darpariaeth fwy cydlynol ar draws yr ysgol er mwyn datblygu medrau disgyblion, yn arbennig eu medrau llythrennedd a rhifedd

A4 Cryfhau trefn cynllunio gwella'r ysgol trwy flaenoriaethu’n well a sicrhau bod systemau rheoli yn cefnogi'r gwaith gwella

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion Ysgol Uwchradd Glan Clwyd yn gwneud cynnydd priodol yn eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau. Gallant adalw dysgu blaenorol yn effeithiol ac adeiladu ar hyn yn briodol erbyn diwedd y wers. Mewn ychydig o wersi arbennig o effeithiol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn. Er hyn, nid yw ychydig o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd. Mae hyn yn bennaf oherwydd eu hagweddau at ddysgu a disgwyliadau rhy isel gan athrawon. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd da iawn o ganlyniad i gefnogaeth gref a chydlynus.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau cyfathrebu cadarn. Maent yn meddu ar eirfa gyfoethog a therminoleg briodol er mwyn trin a thrafod gwahanol dopigau. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn cyfrannu'n synhwyrol a gofalus at drafodaethau. Er enghraifft, mewn gwersi Cymraeg, gall y rhai uwch eu gallu drafod effaith y thema euogrwydd ar gymeriadau'r  nofel 'O ran' gan Mererid Hopwood. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar ei gilydd, ac ar staff. Eto, mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion yn gwrando'n ddigon astud ar gyfarwyddiadau ac mae lleiafrif yn torri ar draws eu hathrawon a'u cyfoedion. Yn y gwersi hyn, mae llawer o ddisgyblion yn trafod â'i gilydd yn Saesneg yn hytrach na'r Gymraeg.

Mae gan lawer o'r disgyblion fedrau darllen cryf. Pan gânt y cyfle, maent yn darllen yn uchel yn rhugl â mynegiant priodol. Gallant gywain gwybodaeth, lleoli ffeithiau a dod i gasgliadau dilys wrth ddarllen testunau. Er enghraifft, yn y gwersi hanes, maent yn cynnig ymatebion estynedig wrth ddadlau pa mor annheg oedd y driniaeth a roddwyd i bobl dduon o dan y drefn apartheid ym 1948. Mae gan ychydig o ddisgyblion fedrau darllen soffistigedig. Maent yn adnabod nodweddion arddull ac yn trafod eu heffaith ar y darllenydd yn grefftus.

Mae llawer o ddisgyblion yn trefnu eu gwaith ysgrifenedig yn ofalus, yn defnyddio paragraffau'n briodol ac yn cyfleu eu syniadau'n glir. Mae'r mwyafrif, pan gânt y cyfle, yn ysgrifennu darnau estynedig cryf a hynny at ddibenion a chynulleidfaoedd gwahanol. Er enghraifft, mae disgyblion yn cymharu gwaith yr artistiaid enwog Van Goch a Gehry yn effeithiol iawn. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau cyson a diofal yn y ddwy iaith ac yn cael trafferth ysgrifennu'n estynedig.

Nodwedd arbennig o waith yr ysgol yw'r cynnydd cyflym a llwyddiannus a wna disgyblion sy'n trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg yn hwyr yn eu medrau Cymraeg. Maent yn datblygu'n siaradwyr hyderus ac yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig estynedig sy'n eu galluogi i ymuno â'r prif lif yn gynnar yn eu bywyd ysgol.

Mae gan y mwyafrif o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o rif a siâp ac maent yn gallu cyfrifo arwynebedd siapiau cyfansawdd sydd yn cynnwys rhannau o gylch. Maent yn hyderus hefyd wrth gyfrifo gyda ffracsiynau, canrannau a degolion. Pan gânt y cyfle, gall disgyblion ddadansoddi data yn effeithiol a dod i gasgliadau rhesymegol wrth werthuso graffiau. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud

camgymeriadau cyfrifo sylfaenol. Nid yw disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd mewn pynciau perthnasol ar draws y cwricwlwm yn ddigon aml.

Cryfder nodedig o fewn yr ysgol yw'r cynnydd wna'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn eu huwch fedrau digidol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio llechi cyfrifiadurol yn fedrus iawn yn eu gwersi i gyfansoddi, creu animeiddiadau deniadol wrth gyflwyno gwybodaeth a chodio i greu gwefannau. Yn eu gwersi ffotograffiaeth, mae disgyblion cyfnod allweddol 4 yn creu portffolios digidol o themâu pwysig yn eu bywydau. Yn ogystal, mae disgyblion cyfnod allweddol 3, yn eu gwersi mathemateg, yn creu fformwlâu mewn taenlen i gyfrifo faint sydd ganddyn nhw ar ôl wedi iddynt dderbyn a gwario arian.

Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn briodol. Yn y gwersi dylunio a thechnoleg, mae disgyblion Blwyddyn 7 yn creu a chynllunio 'Jitterbugs' yn ogystal â chynllunio brodwaith deniadol ar y thema 'Y Sw'. Mae disgyblion hefyd yn defnyddio eu medrau meddwl yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion yn eu gwersi mathemateg yn ystyried pa ddulliau cyfrifo canrannau yw'r gorau i'w defnyddio mewn gwahanol sefyllfaoedd. Yn gyffredinol, mae disgyblion y chweched dosbarth yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dealltwriaeth bynciol. Mewn rhai achosion, maent yn datblygu medrau soffistigedig, er enghraifft wrth ddeall camau y mae'n rhaid eu cymryd wrth ddylunio cerbyd electronig. Mae'r rhan fwyaf yn trafod gyda'i gilydd yn huawdl yn y Gymraeg.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymfalchïo o berthyn i 'deulu' Ysgol Uwchradd Glan Clwyd. Mae gan lawer agweddau cadarnhaol tuag at fywyd ysgol ac maent yn falch o'u Cymreictod. Maent yn gwrtais i ymwelwyr ac yn barod i sgwrsio ac i rannu eu profiadau am fywyd yn yr ysgol.

Mewn llawer o wersi, mae gan ddisgyblion agwedd gadarnhaol, ac maent yn dangos brwdfrydedd ac awydd i ddysgu. Maent yn cyrraedd eu gwersi'n brydlon, yn setlo'n gyflym ac yn bwrw ymlaen â thasgau cychwynnol. Yn y gwersi hyn, mae'r disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn mwynhau dysgu ac yn dangos diddordeb yn y tasgau. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn cydweithio'n dda mewn parau a grwpiau, yn ymddwyn yn gyfrifol wrth wrando ar eraill ac yn parchu barnau gwahanol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion yn canolbwyntio'n ddigon da ac yn siarad a sgwrsio â ffrindiau yn lle gweithio ar y tasgau. Nid yw disgwyliadau lleiafrif o athrawon yn ddigon clir o ran ymddygiad a'r defnydd o'r Gymraeg. O ganlyniad, mae ychydig o ddisgyblion yn dangos diffyg parch at yr athro a chyfoedion ac mae llawer yn defnyddio Saesneg wrth drafod â'i gilydd.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn deall sut i ddod yn unigolion iach a hyderus. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach, ymarfer corff a gofalu am eu hiechyd meddwl. Mae disgyblion yn elwa wrth fanteisio ar y cyfleoedd allgyrsiol gwerthfawr sydd ar gael iddynt gystadlu mewn cystadlaethau ac i gymdeithasu â'u ffrindiau, er enghraifft clybiau chwaraeon, cystadlaethau'r Urdd, clybiau drama, celf a hanes.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n sylweddol at agweddau o fywyd yr ysgol. Maent yn datblygu medrau arwain gwerthfawr wrth gyfrannu tuag at waith y cyngor ysgol, pwyllgorau amrywiol a'r 'Panel Parch a Charedigrwydd'. Maent yn cynnig

sylwadau ac awgrymiadau synhwyrol i'r uwch dîm arwain. Er enghraifft, sefydlwyd ystafell adolygu ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 yn dilyn cais gan y cyngor ysgol. Maent yn datblygu'n  ddinasyddion moesegol a goddefgar ac yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd iechyd meddwl ac o anghenion pobl eraill. O ganlyniad, maent yn codi arian sylweddol ar gyfer elusennau lleol.

Yn gyffredinol, mae disgyblion y chweched dosbarth yn aeddfed iawn. Maent yn barod iawn i gyfathrebu ag ymwelwyr i'r ysgol ac i rannu eu profiadau. Maent yn elwa'n sylweddol o ymgymryd â rolau arweiniol ar draws yr ysgol, er enghraifft wrth arwain y cyngor ysgol a phwyllgorau eraill. Maent yn datblygu eu medrau cyfathrebu a chymdeithasol wrth iddynt fentora disgyblion iau ac wrth hyfforddi'r mentoriaid ifanc.

Oherwydd pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd ar gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod y blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021-2022. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth byncíol gadarn. Maent yn gefnogol o'r disgyblion ac mae llawer yn meithrin perthynas weithio gynhaliol gyda nhw. Mae llawer yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth a'u defnydd o dermau pynciol yn briodol.

Mae'r mwyafrif o athrawon yn defnyddio strategaethau rheolaeth ddosbarth yn gyson i greu awyrgylch sy'n cefnogi dysgu. Mae'r athrawon hyn yn cynllunio tasgau sy'n adeiladu'n briodol ar waith blaenorol ac yn paratoi adnoddau buddiol sy'n ennyn diddordeb llawer o ddisgyblion. Maent yn cynnig her addas i ddisgyblion i sicrhau eu bod nhw'n gwneud cynnydd. Mae'r mwyafrif o athrawon yn esbonio cysyniadau pynciol yn glir ac yn defnyddio amrywiaeth o gwestiynau addas i fonitro cynnydd disgyblion. Mewn lleiafrif o achosion, mae athrawon yn modelu arfer yn effeithiol er mwyn helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau.

Yn yr ychydig o achosion ble mae'r addysgu ar ei orau, mae athrawon yn cynllunio'n fedrus ac yn teilwra gwaith i gyd-fynd ag anghenion y disgyblion. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn o ran ymddygiad a chyflawniad. Mae'r athrawon hyn yn frwdfrydig ac yn sicrhau tempo i'r wers sy'n cyd-fynd yn effeithiol iawn â chynnydd y disgyblion. Maent yn holi cwestiynau miniog a threiddgar, ac yn addasu'r cwestiynau'n grefftus i ddisgyblion o alluoedd gwahanol. Maent hefyd yn herio'r disgyblion i chwilio am a chanfod gwybodaeth yn annibynnol ac yn rhoi cynhaliaeth gref i sicrhau bod y disgyblion yn gwneud cynnydd cryf.

Mewn lleiafrif o achosion, nid yw athrawon yn cynllunio eu gwersi i sicrhau bod disgyblion yn gwneud digon o gynnydd. Er bod y tasgau'n  cadw'r disgyblion yn brysur, nid oes her ddigonol ynddynt. Yn yr achosion hyn, mae'r athrawon yn dueddol o ofyn cwestiynau caeedig yn unig. Nid ydynt yn defnyddio technegau cwestiynu er mwyn procio dealltwriaeth ac ymestyn ymatebion y disgyblion. Nid yw'r athrawon hyn yn addasu cyflymder y wers yn ddigon effeithiol i gyd-fynd â'r dysgu ac o ganlyniad, mae disgyblion yn colli ffocws. Yn ogystal, nid yw disgwyliadau ymddygiad na'r defnydd o Gymraeg gan yr athrawon hyn yn ddigon uchel.

Mae llawer o athrawon yn gwirio dealltwriaeth y disgyblion ac yn cynnig adborth llafar adeiladol iddynt. Yn gyffredinol, mae athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig defnyddiol ar waith disgyblion ac yn cynnig cyfleoedd iddynt wella agweddau o'u gwaith yn ystod 'Amser llnau'. Serch hyn, mae ansawdd yr adborth hyn yn amrywiol ac nid yw sylwadau'r athrawon bob tro'n amlygu'n ddigon clir sut gall y disgyblion wella eu gwaith.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang sy'n diwallu anghenion bron pob disgybl, yn ogystal â chyrsiau sy'n adlewyrchu gofynion y diwydiannau lleol. Ceir ystod eang o bynciau yng nghyfnod allweddol 4 yn cynnwys cyrsiau galwedigaethol fel amaeth, peirianneg, mecaneg moduron, gwasanaethau salon ac opsiynau anghyffredin fel seryddiaeth. Mae'r ysgol hefyd yn cynnig arlwy eang o bynciau yn y chweched dosbarth drwy gydweithio ag ysgolion, colegau lleol, a'r 'e-sgol'. Yn ogystal â hyn, caiff ddisgyblion penodol gyfleoedd gwerthfawr i ymuno â chynlluniau prentisiaeth â chwmnïau lleol. Mae staff yn cynnig cyngor defnyddiol i ddisgyblion wrth iddynt ddewis eu cyrsiau cyn symud i gam nesaf eu bywydau.

Mae'r staff yn datblygu'r cwricwlwm yn briodol ac yn treialu amrywiaeth o ddulliau newydd i drefnu a chydlynu dysgu'r disgyblion. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae staff wedi dechrau cydweithio â'u hysgolion partner cynradd er mwyn hwyluso'r trosglwyddo academaidd rhwng y cynradd a'r uwchradd. Yn dilyn y cyfnod clo, mae staff wedi dadansoddi medrau'r disgyblion yn fanwl er mwyn adnabod bylchau yn eu dysgu. Yn sgil y gwaith hwn, mae'r ysgol yn cynnig sesiynau gwerthfawr i adfer a datblygu medrau sylfaenol unigolion mewn rhaglenni ymyrraeth a sesiynau 'gwella sgiliau' i bob disgybl yn y cyfnodau cofrestru.

Mae'r cydlynwyr medrau yn cynnig cefnogaeth ac arweiniad buddiol i adrannau er mwyn iddynt ddatblygu medrau llafar, darllen a rhif y disgyblion. Trwy gydol y cyfnod clo, roedd ffocws bwriadus i ddatblygu medrau digidol athrawon a disgyblion. Ers dychwelyd i'r ysgol wedi'r cyfnodau hyn, mae'r staff wedi parhau i ddatblygu'r agwedd hon o'u darpariaeth. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith nodedig ar yr hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Yn ddiweddar, mae'r cydlynwyr medrau wedi gweithio gydag athrawon Blwyddyn 6 yn eu hysgolion partner cynradd er mwyn cysoni dulliau o addysgu agweddau o rifedd. Er bod cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y pynciau, nid yw'r ysgol wedi mapio'r cyfleoedd hyn er mwyn sicrhau cynnydd cyson yn y medrau.

Nodwedd hynod o waith yr ysgol yw'r modd y mae staff yn datblygu medrau Cymraeg disgyblion sy'n trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg yn hwyr. Yn fuan iawn, mae'r disgyblion hyn yn datblygu'n siaradwyr rhugl yr iaith sydd yn medru astudio'r holl gwricwlwm drwy'r Gymraeg.

Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn gynhwysfawr ac yn cynorthwyo datblygiad medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Ceir ynddi ffocws sensitif ar agweddau pwysig fel aflonyddu rhywiol a hiliaeth mewn cymdeithas. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi ehangu ar y cyfleoedd i drafod cydraddoldeb ar gais y disgyblion yn y grŵp 'Parch a Charedigrwydd'.

Mae llu o gyfleodd allgyrsiol i ddisgyblion ddatblygu'u diddordebau. Mae rhain yn cynnwys cymryd rhan mewn cystadlaethau Eisteddfod yr Urdd a gweithgareddau corfforol yn cynnwys ffensio, golff, gymnasteg a dawns.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Uwchradd Glan Clwyd yn gymuned ofalgar, ac mae cefnogaeth i les y disgyblion yn gryfder. Ers y pandemig, mae'r ysgol wedi rhoi amrywiaeth o strategaethau gwerthfawr ar waith i gynorthwyo disgyblion i ailgynefino â'r ysgol. Mae diwallu anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion yn flaenoriaeth amlwg i holl staff yr ysgol ac maent yn gwneud hyn yn llwyddiannus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gynhwysfawr iawn. Mae map darpariaeth yr ysgol yn ddull effeithiol o sicrhau bod y disgyblion yn derbyn ymyraethau priodol. Mae disgyblion yn cael eu tracio'n ofalus o ran sgoriau yn eu medrau sylfaenol, eu hasesiadau personol, ac yn erbyn eu targedau academaidd. O ganlyniad i'r gefnogaeth, mae'r disgyblion sydd o dan ofal yr adran yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau. Gwneir defnydd llwyddiannus o strwythurau mewnol, fel y fforwm 'Tîm Ysgol', i adnabod anghenion disgyblion ac i benderfynu ar y camau cefnogi sydd eu hangen arnynt. Mae staff y 'Tîm Cynnal' a chanolfan 'Yr Elwy' yn darparu cefnogaeth dda iawn i ddisgyblion bregus yr ysgol. Mae prosesau tynn yn eu lle ar gyfer cyflawni'r gofynion o ran y cynlluniau unigol ac mae'r arolygon statudol blynyddol yn cynnwys y disgybl, y rhieni ac unigolion perthnasol eraill. Mae'r adran yn sicrhau bod prosesau pontio cadarn ar waith ar gyfer trosglwyddo i'r ysgol ym Mlwyddyn 7, a phan mae disgyblion o dan ofal yr adran yn gadael ar ddiwedd eu taith yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth eang a buddiol i gefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion sydd yn cynnwys ymyraethau llythrennedd a lles emosiynol. Gwneir hefyd ddefnydd cynhyrchiol o bartneriaid allanol, er enghraifft Barnardo's a'r heddlu. Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i adnabod disgyblion bregus ac mae lles y disgyblion hyn yn cael ei gefnogi a'i fonitro'n effeithiol.

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â chodi presenoldeb yn sgil y pandemig mewn modd bwriadus ac effeithiol sydd wedi arwain at gynnydd cryf yn y cyfraddau presenoldeb. Maent yn gwneud defnydd llwyddiannus o weithdrefnau mewnol ac asiantaethau allanol i gefnogi'r disgyblion, gan gynnwys defnyddio sesiynau adferol a'r Tîm Cynnal' i gynorthwyo disgyblion i integreiddio nôl i'r ysgol. Maent yn defnyddio strategaethau buddiol fel gwobrwyo a chysylltu â'r cartref yn llwyddiannus i wella presenoldeb. Mae'r ysgol hefyd yn cysylltu â'r cartref mewn modd amserol pan mae disgybl yn absennol.

Mae strwythurau priodol ar waith i gefnogi ymddygiad da ar draws yr ysgol. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant addas ar gynnal ymddygiad. Fodd bynnag, nid yw'r strwythurau hyn yn cael eu gweithredu'n ddigon cyson a chadarn gan bob aelod o staff.

Mae ystod o weithgareddau priodol yn y rhaglen ABCh yn cefnogi anghenion y disgyblion yn y maes. Mae darpariaeth gadarn ar gyfer gyrfaoedd gan gynnwys y gwersi 'Blaguro' ym Mlwyddyn 9, y defnydd o Gyrfa Cymru, nosweithiau dewisiadau ar gyfer cyrsiau TGAU, y chweched dosbarth a'r colegau lleol.

Mae'r cyfnod tiwtor dosbarth yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol er mwyn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae cyfleoedd priodol yn y sesiynau hyn i drafod a myfyrio ar faterion cyfoes fel y rhyfel yn yr

Wcráin a gwaith yr Urdd. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu i fod yn unigolion egwyddorol ac i ddysgu am hanes Cymru a'r diwylliant Cymreig. Er enghraifft, maent yn gwrando ar drac yr wythnos yn y cyfnod tiwtor, yn dathlu 'Dydd Miwsig Cymru' a thrwy ddysgu am Betty Campbell yn y gwersi Cymraeg.

Mae llais y dysgwr yn cael dylanwad buddiol ar waith yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol yn fforwm sy'n canolbwyntio ar wahanol agweddau o fywyd yr ysgol ac mae'n cynnwys amrediad o ddisgyblion o wahanol gefndiroedd. Maent wedi llwyddo, er enghraifft, i leihau defnydd yr ysgol o blastigau a sicrhau biniau newydd i'r ardal allanol. Mae disgyblion Blwyddyn 12 yn arwain y 'Panel Parch a Charedigrwydd'. Mae'n banel cynhwysol sy'n llwyddiannus wrth godi ymwybyddiaeth o hawliau cyfartal ac wrth annog diwylliant o beidio ag ystrydebu yn yr ysgol. Mae'r disgyblion yn frwd wrth godi arian at elusennau, er enghraifft 'DEC Cymru'. Mae gwrando a thrafod gyda dysgwyr hefyd yn cael ei ddefnyddio'n briodol ar gyfer gweithgareddau academaidd fel y cylch craffu, neu i drafod y ffordd orau o asesu mewn pynciau. Er enghraifft, yn yr adran hanes, bu'r disgyblion yn trafod manteision ac anfanteision adborth ysgrifenedig a llafar.

Ers codi cyfyngiadau'r pandemig, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd amrywiol iawn i ddisgyblion gymryd rhan mewn perfformiadau a digwyddiadau, fel unigolion ac mewn grwpiau. Mae bwrlwm o weithgarwch yn yr ysgol yn paratoi at Eisteddfod yr Urdd ac mae amserlen gynhwysfawr o weithgareddau allgyrsiol addysg gorfforol. Mae hyn yn werthfawr wrth feithrin hunanhyder disgyblion, eu gallu i fynegi eu hunain yn greadigol a'u gallu i weithio fel rhan o dîm.

Mae trefniadau gofalus ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn ddiogel wedi arwain at ddiwylliant cryf o ddiogelu o fewn yr ysgol. Mae staff a llywodraethwyr yn derbyn hyfforddiant buddiol rheolaidd yn y maes hwn ac, o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u rolau. Mae trefniadau cadarn ar gyfer cyfeirio materion diogelu neu amddiffyn plant ac mae cofnodion manwl yn cael eu cadw ar system electroneg addas. Gwna arweinwyr ddefnydd buddiol o amrywiaeth o wybodaeth berthnasol i adnabod disgyblion bregus a sicrhau eu bod yn monitro lles y disgyblion hyn yn ofalus.

Gweithia'r ysgol yn effeithiol gyda'r awdurdod lleol ac asiantaethau perthnasol i gyfeirio disgyblion at gefnogaeth arbenigol ac ymateb i themâu penodol mewn modd rhagweithiol. Mae'r ysgol yn delio'n  amserol ac effeithiol gydag unrhyw achosion o fwlio ac mae cofnodion clir yn cael eu cadw o'r achosion hyn. Nodwedd gref o waith yr ysgol yn y maes hwn yw gwaith y mentoriaid ifanc, lle mae disgyblion yn rhan o'r broses o ddatrys anghydfod rhwng eu cyfoedion.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arwain yn cydweithio'n dda ac yn arddangos ymrwymiad taer i gefnogi lles disgyblion a staff. Dros gyfnod y pandemig, rhoddwyd blaenoriaeth amlwg i ofalu am y disgyblion a'u teuluoedd, a'r staff.

Mae'r pennaeth yn uchelgeisiol dros yr ysgol, yn awyddus i'r ysgol beidio aros yn ei hunfan ac i wella'n barhaus. Ynghyd â'r uwch dîm arwain, mae wedi llwyddo i greu cymuned ofalgar sydd â diwylliant diogelu cadarn.

Mae gan y pennaeth weledigaeth i ‘feithrin Cymry blaengar’. Er ymrwymiad yr uwch dîm arwain a llawer o staff i’r weledigaeth hon, nid yw holl gymuned yr ysgol yn ei chynnal a’i chefnogi yn ddigon cadarn.

Mae uwch arweinwyr a’r llywodraethwyr wedi adnabod nad yw rolau a chyfrifoldebau arweinwyr yn gwbl glir a chytbwys o dan y system bresennol. Mae cynllun ar waith i ailstrwythuro’r tîm arwain er mwyn ymestyn capasiti a datblygu cynllun olyniaeth.

Mae trefniadau addas ar gyfer cyfarfodydd cyswllt. Ceir cyfarfodydd cyson rhwng arweinwyr canol a’u rheolwyr llinell ble trafodir materion perthnasol megis blaenoriaethau’r adran a gwaith gwerthuso a gwella yr arweinwyr. Mae system briodol ar gyfer rheoli perfformiad. Serch hyn, nid yw cyfrifoldebau rheoli llinell a pherfformiad bob amser yn cyd-fynd â meysydd cyfrifoldeb uwch arweinwyr.

Ar y cyfan, mae gan yr ysgol systemau rheoli perfformiad priodol ond nid yw’r systemau hyn bob amser yn cyd-blethu er mwyn cefnogi gwaith gwella’r ysgol yn ddigon effeithiol. Er enghraifft, nid oes cysylltiad digon cydlynus rhwng blaenoriaethau’r ysgol, y system rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol.

Mae arweinwyr wedi ailgydio’n sensitif mewn gweithgareddau priodol i sicrhau ansawdd a chynllunio gwella. Mae gan yr ysgol gylch clir ar gyfer prosesau hunanwerthuso. Mae’n cynnwys trefn ar gyfer casglu tystiolaeth uniongyrchol am addysgu a dysgu o ystod o ffynonellau defnyddiol. Er enghraifft, mae arweinwyr ar bob lefel yn cyrchu barn disgyblion yn rheolaidd ac yn gweithredu ar eu syniadau.

Mae enghreifftiau clir o arweinwyr ar bob lefel yn adnabod agweddau sydd angen eu gwella ac yna’n gosod camau er mwyn datblygu’r agweddau hynny. Er enghraifft, mae’r ysgol wedi datblygu’r tîm cynnydd er mwyn cefnogi lles disgyblion yn well ac mae adrannau penodol wedi addasu eu darpariaeth i ymateb i anghenion academaidd y disgyblion yn dilyn y pandemig. Mae’r datblygiad o ran gwella medrau digidol staff a disgyblion dros gyfnod byr yn nodedig. Fodd bynnag, nid yw uwch arweinwyr wedi adnabod yn ddigon miniog ychydig o wendidau pwysig. Mae gormod o flaenoriaethau gwella ysgol gyfan, ac o ganlyniad, nid yw’n gweithredu’n ddigon effeithiol er mwyn gwneud cynnydd cyson ar draws y blaenoriaethau.

Mae arweinwyr canol yn casglu a dadansoddi tystiolaeth ddefnyddiol am eu hadrannau ac yn crynhoi’r prif gryfderau a meysydd i’w gwella. Maent yn cefnogi gwelliant trwy rannu arferion effeithiol oddi fewn ac ar draws adrannau. Nid yw gwerthuso adrannol yn ffocysu digon ar gynnydd disgyblion yn eu medrau a’u dealltwriaeth bynciol ynghyd â’u hymagweddau at ddysgu.

Mae staff yn cael cyfleoedd datblygiad proffesiynol pwrpasol sy’n ymateb i’w hanghenion ac yn cyd-fynd yn gyffredinol â blaenoriaethau’r ysgol. Mae cyfleoedd effeithiol iddynt ddatblygu a defnyddio eu medrau digidol. Mae hyfforddiant penodol ar agweddau o addysgu fel pwyslais ar adalw gwybodaeth wedi helpu athrawon i fireinio eu harfer.

Mae rhieni yn gadarnhaol ynghylch y cyfathrebu rhwng yr ysgol a’r cartref, a’r gefnogaeth a gânt. Mae gwefan bwrpasol i rieni i’w helpu i gefnogi eu plant.

Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol iawn o’r ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth addas o lawer o gryfderau’r ysgol, ac i raddau llai, y meysydd i’w gwella. Maent yn datblygu fel cyfeillion beirniadol ac yn dechrau deall eu rôl o ran hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Rheolir cyllideb yr ysgol yn effeithiol. Mae’r rheolwr busnes, y pennaeth a’r llywodraethwyr yn cynllunio ac yn monitro gwariant yn ofalus. Mae gwarged sylweddol gan yr ysgol ar hyn o bryd, ond mae cynlluniau synhwyrol ar waith i wario’r cyllid. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd priodol o grantiau, gan gynnwys y grant amddifadedd.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.gov.wales/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.gov.wales/

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 27/07/2022